CYNGOR BRO LLANGELER – 26 -03-2018

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Mawrth 26ain 2018 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h. Diolchod y Cyng A Thomas am y cyfarchion o gydymdeimlad a dderbyniodd gan y Cynghorwyr ar farwolaeth ei fam ac fe gydymdeimlwyd ag ef ar rhan y Cyngor i gyd gan y Cadeirydd.

1. **03/18 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. John Crossley, Cynghorwyr: Jamie Ayres, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Christopher Jones, Nesta Jones, Ken Howell, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, John Wigley. Clerc – Stella Jones

2. **03/18 HEFYD YN BRESENNOL:** Cyfieithydd, Aelodau o'r cyhoedd

3. **03/18 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Brenda Jones, Marc Rees,

4. **03/18 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi - Cyng. K Howell – 6.7.i.03/15, 5.6.i. – Cllrs. D Smith & J Crossley , 5.10.I.09/16 – Cllrs. K Howell & A Eynon

5. **03/18 HEDDLU:** PCSO J Kedward – Mae car yn parcio yn Ger y Llan a'r perchennog wedi symud o'r stad –JK i edrych a oes ganddo'r tystysgrifau priodol. Rhywun wedi gwneud

6. **03/18 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Chwefror 26ain 2018 a'u cael yn gywir
   Cynigydd – Cyng. A Thomas Eilydd – Cyng. J Ayres

7. **03/18 MATERION YN CODI :**
   12.i.01/14. b)Audio Trail – *dim datblygiad*
   6.i. Pwyllgor y Parc – *dim newid yn y sefyllfa*
   7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – *dim datblygiad*
   10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – *gwaith peintio yn methu cael ei wneud nes bod y tywydd yn gwella*
   10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – *trafodwyd sylwadau'r cyfreithiwr*
   10.i.06/17 Tir Temple – *dim i adrodd nôl*
   11.3i.09/17 Palmant i Pont Brân – *dyw'r Clerc heb gael unrhyw ymateb wrth y trigolion am eu barn ynghylch palmant.*
   11.i.02/18 Prosiectau y dyfodol – *Pris am adnewyddu'r byrddau Llwybrau Gwlân – roedd y pris gan Phil Wait Designs, a wnaeth y byrddau gwreiddiol, yn costio £1,716.40*

8. **03/18 GOHEBIAETH:**
   i. Cruse Sir Gâr – Gofal Mewn Galar – Llythyr o ddiolch am y rhodd
   ii. ebost – ULlC – Ymgynghoriad ar Rifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   iii. ebost – Bwletin Newyddion 2018 – *cylchlythyrwyd*
   iv. ebost – CSG– Ceisiadau Cynllunio *26.02.2018 - 02.03.2018 – cylchlythyrwyd*
   v. ebost – Adroddiad Blynyddol PACGA – Chwefror 2018 – *cylchlythyrwyd*
   vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio *05.03.18 - 09.03.18 – cylchlythyrwyd*
   vii. ebost – CSG – Canlyniad Ymgynghoriad 2018-2021 – *cylchlythyrwyd*
   viii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio *12.03.2018 - 16.03.2018 – cylchlythyrwyd*
   ix. ebost – CSG – Cau hewl ar Frys – U5470 Drefelin, Llandysul – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   x. ebost – ULlC – Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – *cylchlythyrwyd*
   xi. ebost – CSG – Canllaw i brif Gynghorau ar Adolygiad o'r Cymunedau – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xii. ebost – ULlC – Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 – *cylchlythyrwyd*
   xiii. ebost – Dyddiad Cwblhau Asedau - *31.03.2018 – cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xiv. ebost – Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' – *cylchlythyrwyd*
   xv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio *19.03.2018 - 23.03.2018 – cylchlythyrwyd*
   xvi. ebost – ULlC – Creu Senedd i Gymru: Mae dal cyfle i ddweud eich dweud – *cylchlythyrwyd*
   xvii. ebost – PACarGA – Cyfarfod o gwmpas y bwrdd ym Mhrifysgol Caerfyrddin 11/04/2018 o 10.30-12.30 – *cylchlythyrwyd*
   xviii. ebost – Ian Butherway – Trwsio Golau Nadolig – *nodi y bydd yn dechrau'r gwaith cyn hir ac yn*
   xix. ebost – ULlC – Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – 19 Ionawr 2018
   xx. Eleri Thomas – *ymateb i'r Les Drafft i Parc Pentrecwrt- trafodwyd ym Materion yn Codi*

9. **03/18 CYNLLUNIO**
   Cais Ymgynghori llawn
   W/36966 – M Rees, Plot 2, Penlon Noddfa, Waungilwen SA44 5YF – adeiladu tŷ sengl gyda garej integrol – *dim gwrthwynebiad*

10. **03/18 MATERION ARIANNOL**
    Dyfynbris Yswiriant – Inspire £583.83
    Dyfynbris Torri Gwair [Dylan Davies].....£1,640.00
    Dyfynbris i ail wneud 1 o'r Byrddau Gwlân £1,716.40

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

a. Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 26/03/2018 .....£71.40

ii .HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 26/03/18 .....£10.50

[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]

iii. CSG – Goleuo Llwybrau £18,078.62

[CaC - *£10,823.16,* Ynnu - *£4,242.36,* TAW - *£3,013.10*]

Arian yn y Banc ar 13/03/18 .....£28,096.47

b. S/O

Cyflog y Clerc £550.00

c. Credid

Dŵr Cymru £75.00

Torch £12.00

ch. Cais am Nawdd Ariannol

Ambiwlans Awyr Cymru i Blant - £100

11. 03/18 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Gwobr i Lili Bryant – cytunwyd ar y swm o ddim mwy nag £20. Cytunwyd y byddai'n syniad i gael gwneud logo i'r Cyngor yr un fath a chadwyn y cadeirydd.

12. 03/18 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng. A Thomas – mae'r Cyngor Sir wedi glanhau'r draeniau ym Mhont Tyweli
2. Cyng. D Evans – ar ymweliad a Phont Alltcafan gwelwyd bod rhywun wedi difwyno wyneb T Llew Jones ar yr plac.
3. Cyng. J Wigley – i. Llwybr Pwllmarl yn fwdlyd iawn
   ii. Ger Aberbudrell mae dŵr glaw yn cronni ar yr hewl.
   iii.Pont Brân – dŵr glaw yn cronni yma hefyd
   iv. Mae postyn ar waelod y cyffordd sy'n ymuno a'r brif hewl A484
4. Cyng. A Eynon – Wedi pasio Wernewydd mae hen fan wedi cael ei gadael ar ochr y ffordd – angen darganfod ei rhif a'i rhoi i J Kedward i ymchwilio a oes dogfennau dilys iddi.
5. Cyng.N Jones – Tyllau mawr ar y ffordd o Glaspant, Rhos am Saron ac ar yr hewl sy'n dod lawr o Bancyffordd i Pentrecwrt.
6. Cyng J Crossley – Pan mae loriau mawr yn troi yng nghyffordd Waungilwen, am hewl gefn sy'n arwain i Penllwyn, mae'n nhwn troi mewn ar fynedfa Dolydd a Moelfre ac o ganlyniad mae'n naddu wyneb y tarmac.

13. 03/18 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul nos Lun Ebrill 30ain 2018 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.55yh

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

.